Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwr yr Ystad

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2021-2022









llyw.cymru

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3

2. Perfformiad yr Ystad 5
   - Effeithiolrwydd 5
   - Maint a Chostau Rhedeg 6

3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol 7
   - Ynni 7
   - Gwastraff 7
   - Dŵr 8
   - Perfformiad Amgylcheddol 8
   - Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos (DEC) – yr 8 prif safle 9
   - Edrych tua'r Dyfodol 9

4. Edrych tua'r Dyfodol 10

**Atodiad 1:** 11
Arbedion yn sgil gwagio adeiladau 2015, 2020, 2021 a 2022

**Atodiad 2:** 12
Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020, 2021 a 2022

**Atodiad 3:** 13
Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020, 2021 a 2022

**Atodiad 4:** 15
Crynodeb o Berfformiad Eiddo'r Ystad Arbenigol


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG47736, ISBN digidol 978-1-83577-330-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

Parhaodd y rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru i weithio o bell yn ystod 2021-2022, gyda chadw pellter cymdeithasol yn parhau ar gyfer y rhai a oedd yn gweithio yn ein swyddfeydd. Cynhelir adolygiad o ofynion swyddfa yn 2023, a fydd yn llywio cyfeiriad yr ystad yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ystad swyddfeydd wedi'u gwasgaru ledled Cymru, i gefnogi economi decach a chryfach ac i alluogi staff i weithio'n agosach i gartref, neu yn eu cartref.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i adrodd am y prif feincnodau o ran costau a pherfformiad amgylcheddol.

Mae'r Strategaeth 10 mlynedd Gweithle'r Dyfodol (2020-30) yn cyflwyno fframwaith o egwyddorion lefel uchel i lywio cynlluniau'r dyfodol i gael y gorau o'r aliniad strategol, perfformiad o ansawdd a'r defnydd o'r Ystad Weinyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu swyddfeydd sy'n addas ar gyfer ffyrdd newydd hyblyg a chydweithredol o weithio, gan gydnabod y bydd staff yn gweithio i ffwrdd o'r swyddfa'n amlach ac yn defnyddio'n gofod busnes mewn ffordd wahanol. Mae ein nod o gael 50% o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio o bell yn parhau i fod ar waith ac mae'n pennu'r safon ar gyfer cynllunio gofod ar sail 5 gweithfan fesul 10 aelod staff. Caiff hyn ei ategu gan angen cynyddol am ofod gweithio cydweithredol a symudiad tuag at 'un ystad gyhoeddus' wedi'i nodweddu gan gydweithio â'n partneriaid sector cyhoeddus i gyd-leoli.

Mae cefnogi canol trefi, trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy a chynaliadwyedd ein hadeiladau'n parhau i fod yn ystyriaethau pwysig wrth lunio ystad y dyfodol. Mae ein heffaith amgylcheddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau cynaliadwy i leihau'n dibyniaeth ar danwydd ffosil, lleihau gwastraff a gwella bioamrywiaeth. Mae bod yn fwy hyblyg er mwyn ymgorffori tueddiadau a pholisïau ar gyfer patrymau gweithio mwy cyfunol yn awgrymu bod angen math gwahanol o ofod swyddfa.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau.

Byddwn yn parhau i drafod â staff ac Undebau Llafur wrth ystyried yr opsiynau i gau neu ddisodli swyddfeydd wrth iddynt godi, gan ddadansoddi'r costau a'r manteision yn fanwl.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif ddata perfformiad o ran effeithlonrwydd a'r amgylchedd ac yn eu cymharu â ffigurau cyfatebol y strategaeth flaenorol. Dyma'r prif ddangosyddion:

| | |
|---|---|
| Maint a chost rhedeg yr ystad | Rhent[1] |
| | Ardrethi Busnes |
| | Costau eraill |
| Effeithlonrwydd y gweithle | £ fesul swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE) |
| | Metrau sgwâr fesul swydd FTE |
| Perfformiad ynni fel Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC)) | |
| Perfformiad amgylcheddol o ran allyriadau $CO_2$; cynhyrchu ac ailgylchu gwastraff a defnyddio dŵr. | |

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o effeithlonrwydd y swyddfeydd gweithredol craidd a oedd yn rhan o'r ystad ar 31 Mawrth 2022. Rhestrir y swyddfeydd hyn yn Atodiad 1.

Nid ydym wedi cynnwys eiddo arbenigol yn y ffigurau cost-effeithlonrwydd a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad. Dangosir manylion yr eiddo arbenigol hwn yn Atodiad 4.

1 Rhoddir rhent tybiannol i swyddfeydd rhydd-ddaliadol. Adolygwyd y rhenti ar 31 Mawrth 2020.

## 1.1 Yr Ystad Weinyddol


Mae’r Ystad yn darparu 68,669 m sg o ofod gweithio a chyfarfod hyblyg modern ar gyfer 5,650 o staff a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn, ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r 15 swyddfa graidd yn cynnwys y prif hybiau ym Mharc Cathays Caerdydd, Rhyd-y-car Merthyr Tudful, Rhodfa Padarn Aberystwyth a Sarn Mynach Cyffordd Llandudno. Ceir swyddfeydd ac adeiladau eraill ledled Cymru i sicrhau presenoldeb gwasgaredig ac i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion busnes (Ffigur 1).

Ceir data ategol yn Atodiadau’r adroddiad hwn:

- **Atodiad 1:** Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2022.
- **Atodiad 2:** Arbedion yn sgil gwagio adeiladau 2015, 2020, 2021 a 2022.
- **Atodiad 3:** Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020, 2021 a 2022.
- **Atodiad 4:** Crynodeb o Berfformiad Eiddo’r Ystad Arbenigol.

### Ffigur 1: Lleoliad swyddfeydd craidd Llywodraeth Cymru



# 2. Perfformiad yr Ystad

Parhaodd y rhan fwyaf o'r staff i weithio o bell yn ystod 2021-2022. Mae'r polisi'n parhau y dylai 50% o'r staff fod yn gweithio i ffwrdd o'r swyddfa ar unrhyw un adeg benodol, ac mae tystiolaeth yn dangos bod cyfran uwch yn gwneud hynny'n rheolaidd.

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl staff a chontractwyr wedi gweithio yn eu safleoedd contractiol gydol y flwyddyn, ac eithrio staff â safle contractiol yn QED, sydd, at ddibenion y dadansoddiad hwn yn unig, wedi'u neilltuo i swyddfeydd cyfagos.[2]

## 2.1 Effeithiolrwydd

Mae dau lawr yn safle Teras Picton, Caerfyrddin yn dal yn wag ac yn ddiangen ac yn cael eu marchnata ar hyn o bryd. Mae ansicrwydd am batrymau gwaith hirdymor wedi bod yn ffactor yn y ffaith fod y swyddfeydd hyn yn parhau i fod yn wag.

Yn gyffredinol, lleihaodd maint yr Ystad Weinyddol graidd i 68,669 m sg, yn sgil gosod mwy o lefydd i bartneriaid y sector cyhoeddus.

Mae'r angen am staff gwasgaredig ledled Cymru yn cyfyngu ar gyfleoedd i gau swyddfeydd ymhellach, ond rydym yn ystyried yr opsiynau i sicrhau'r 'maint cywir' drwy ddatblygu achosion busnes, arfarnu buddsoddiadau ac ymgynghori â staff ac Undebau Llafur wrth i gyfleoedd, megis cymalau torri neu derfynu prydlesau, godi. Wrth i arferion gweithio o bell ennill eu plwyf, rhagwelir y bydd natur yr ystad swyddfeydd yn newid ymhellach ac y bydd mwy o gyfleoedd i sicrhau arbedion trwy fod yn effeithlon yn codi.

Mae cyfleoedd i gydleoli, naill ai drwy is-osod gofod dros ben neu symud gweithrediadau Llywodraeth Cymru i adeiladau cyhoeddus eraill yn parhau i gael eu harchwilio. Cynyddodd diddordeb gan feddianwyr posib yn ein prif hybiau yn ystod 2021-2022.

Cadwyd at y cynllun rhesymoli o 5 swydd FTE fesul 10 gweithfan ac 8 m sg fesul gweithfan.

Nid yw gwaredu'r buddiant rhydd-ddaliadol ym Mharc Busnes Penlle'r-gaer wedi digwydd eto, ac mae staff yn parhau i fod yno. Rydym yn parhau i archwilio opsiynau yng nghanol dinas Abertawe.

Nodir ffigurau perfformiad allweddol ar gyfer yr ystad gyfan isod. Ceir dadansoddiad fesul adeilad yn Atodiad A.

2 At ddiben yr adroddiad hwn, mae'r gweithwyr hyn, gan gynnwys staff Awdurdod Refeniw Cymru, wedi'u neilltuo i Barc Cathays, Bedwas a Merthyr Tudful. Mae hyn at ddibenion dadansoddi yn unig. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y prif faincnod sy'n ymwneud â'r ystad gyfan

## 2.2 Maint a Chostau Rhedeg

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | Newid 31 March 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad (m sg) | 82,295 | 76,181 | 69,850 | 68,669 | -1.7% |
| Nifer yr Eiddo | 25 | 17 | 15 | 15 | 0 |
| Cost (miliwn) | £18.136 | £20.42 | £18.413 | £18.80 | 2.12% |

Mae arwynebedd yr ystad a feddiannwyd wedi lleihau drwy osod gofod dros ben. Mae costau rhedeg wedi gostwng ar gyfer llawer o adeiladau, gwrthbwyswyd hyn gan y cynnydd sylweddol mewn costau trwsio yn Llys y Ddraig, Abertawe.

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2020 | 31 v Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | Newid 31 Mawrth 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithlonrwydd** | | | | | |
| Cost fesul FTE | 3,285 | 3,778 | 3,337 | 3,329 | 0.24% |
| Cost fesul m sg | 212.4 | 268.04 | 263.61 | 273.90 | 3.9% |
| M sg fesul FTE | 15.5 | 14.1 | 12.6 | 12.2 | -3.2% |

# 3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol

Mae'r newid i batrymau gwaith yn sgil y pandemig yn parhau i gael effaith ar y defnydd o gyfleustodau a'r gwastraff a gynhyrchir cyn Covid, yn cynnwys yr hyn sydd ar gael ar gyfer ailgylchu. Mae mwy o wastraff na ellid ei ailgylchu wedi cynyddu gwastraff i ynni, ac mae'r swm a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi aros yr un fath. Gostyngodd y carbon a gynhyrchir a'r defnydd o drydan a nwy ar draws yr ystad.

## 3.1 Ynni

- Gostyngiad o **14.29%** yn yr allyriadau $tCO_2e$ gros o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gostyngiad o **20.89%** yn y defnydd o drydan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gostyngiad o **12.72%** yn y defnydd o nwy o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddilyn canllawiau'r diwydiant ar weithredu ei systemau adeiladu'n ddiogel.

## 3.2 Gwastraff

- Cynyddodd gwastraff o 50 tunnell yn 2020-2021 i 72 tunnell yn ystod 2021-2022. Y rheswm am hyn yw gweithwyr yn dychwelyd yn araf i'r swyddfa o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd y mwyafrif llethol o weithwyr yn gweithio gartref.
- Roedd lefel y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn union yr un fath â'r flwyddyn flaenorol (2% o'r cyfanswm).

## 3.3 Dŵr

Cafwyd cynnydd bychan yn y defnydd o ddŵr i 2.5$m^3$ y pen wrth i fwy o staff a chontractwyr fod yn y swyddfeydd.

## 3.4 Perfformiad Amgylcheddol


Dangosir manylion yr allyriadau nwyon tŷ gwydr, faint o wastraff a gynhyrchwyd ac o ddŵr a ddefnyddiwyd yn yr Ystad Weinyddol isod:

| **Nwyon Tŷ Gwydr** | **2018-2019** | **2019-2020** | **2020-2021** | **2021-2022** | **Newid Blynyddol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm allyriadau (t $CO_2e$) | 4236 | 3713 | 3500 | 3000 | - 14.3% |
| Trydan (t $CO_2e$) | 3193 | 2647 | 1896 | 1500 | -20.9% |
| Nwy (t $CO_2e$) | 1043 | 1066 | 1604 | 1400 | -12.72% |
| **Gwastraff** | **2015-2016** | **2019-2020** | **2020-2021** | **2021-2022** | |
| Cyfanswm gwastraff (tunelli) | 372 | 284 | 50 | 72 | 44% |
| Tirlenwi (%) | 1 | 1 | 2 | 2 | 0% |
| Gwastraff i Ynni (%) | 11 | 17 | 29 | 14 | -51.7% |
| Ailddefnyddio/Ailgylchu (%) | 88 | 82 | 69 | 84 | -4.34% |
| **Dŵr** | **2015-2016** | **2019-2020** | **2020-2021** | **2021-2022** | |
| ($m^3$ fesul person/blwyddyn) | 8 | 5.6 | 2.1 | 2.5 | 19% |

## 3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos – yr 8 prif safle

Y mesur cyfartalog o hyd oedd Band D, gyda chyfartaledd o 62.375.

### Perfformiad DEC y Safle 2021-2022




### Perfformiad Amgylcheddol

Mae'r ystad wedi cynnal perfformiad amgylcheddol DEC 2020-21 ar draws yr 8 prif safle.

# 4. Edrych tua'r Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn ar Gyflwr yr Ystad 2021-22 yn edrych yn ôl ar y flwyddyn pan nad oedd ein swyddfeydd yn llawn o hyd wrth i staff barhau i weithio o bell.

Arweiniodd y cynnydd bychan yn nifer y staff oedd yn gweithio yn y swyddfeydd at gynnydd yn y ffigurau ar gyfer rhai meysydd o berfformiad amgylcheddol. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant yn y dangosyddion allweddol fel allyriadau carbon dros y flwyddyn. Parhaodd gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yr un fath, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gwastraff a anfonwyd i gynhyrchu ynni.

Dechreuodd tystiolaeth ddod i'r fei fod yna fwy o swyddfeydd yn cael eu tanddefnyddio ar draws yr ystad gyhoeddus o ganlyniad i staff yn gweithio'n hyblyg a gweithio gartref yn ystod y pandemig. Er bod effeithlonrwydd Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru wedi gwella'n sylweddol ers 2015, yr her yn y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau'r defnydd gorau posibl o swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

O ystyried yr ymrwymiad i ystad wasgaredig, bydd cyfleoedd i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar wneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau hynny rydym wedi'u cadw drwy eu gosod i bartneriaid y sector cyhoeddus.

# Atodiad 1: Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2022

| Cyfeiriad | Cyfanswm arwynebedd mewnol net yn eiddo llwyr i LlC | Arwynebedd mewnol net m sg LlC | Staff 2022 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio gofod LlC) | m sg fesul aelod o staff | Cymhareb ddesgiau | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac eithrio Rhent ac Ardrethi | Ardrethi 2022 | Rhent gan gynnwys TAW |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2, Parc Cathays, Caerdydd | 37,923 | 37,923 | 3,116.5 | 12 | 0.98 | ○ | £4,950,810 | £1,278,650 | £3,430,000 |
| Rhan o Loriau 2/5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | | 1,792 | 132.0 | 14 | 1.32 | ■ | £695 | £0 | £0 |
| Tŷ'r Afon, Heol Bedwas, Bedwas, Caerffili | | 2,486 | 208.2 | 12 | 0.99 | ■ | £255,909 | £123,318 | £374,490 |
| Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | 559.4 | 11 | 1.01 | ○ | £1,147.581 | £264,825 | £825,000 |
| Teras Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 2,920 | 269.3 | 11 | 0.88 | ○ | £233,318 | £106,826 | £202,100 |
| Parc Busnes Havenshead, Aberdaugleddau | | 155 | 30.8 | 5 | 0.58 | ■ | £14,333 | £7,089 | £17,100 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle'r-gaer, Abertawe | 1,792 | 1,792 | 290.8 | 6 | 0.68 | ○ | £717,874 | £80,785 | £148,180 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth | 6,262 | 5,764 | 282.3 | 20 | 1.42 | ○ | £986,005 | £260,979 | £544,325 |
| Neuadd Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod | | 886 | 110.8 | 8 | 0.63 | ○ | £76,233 | £20,196 | £57,500 |
| Tŷ Ladywell, Y Drenewydd | | 1,166 | 72.2 | 16 | 0.78 | ■ | £205,024 | £35,511 | £126,018 |
| Timekeepers Office, Caergybi | | 55 | 6.0 | 9 | 1.33 | ■ | £18,931 | £3,531 | £5,000 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7,105 | 6,129 | 424.4 | 14 | 0.94 | ○ | £1,031,242 | £323,274 | £541,497 |
| 1 Grosvenor Lodge, Grosvenor Road, Wrecsam | | 318 | 16.4 | 19 | 1.52 | ■ | £41,043 | £13,509 | £40,800 |
| Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon | | 738 | 88.4 | 8 | 0.86 | ■ | £83,005 | £15,916 | £76,200 |
| Llawr Gwaelod, Uned 2 Oak House, Parc Busnes Celtic Springs, Casnewydd | | 448 | 42.5 | 11 | 0.80 | ■ | £33,653 | £26,349 | £63,600 |

○ Rhydd-ddaliad ■ Lesddaliad

DS. Mae'r ffigur ardrethi ar gyfer Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon ar gyfer rhan yn unig, Mae'r ardrethi amcangyfrifiedig i'w talu yn ar y cyfan tua £48,000

# Atodiad 2: Arbedion yn sgil gwagio adeiladau 2015, 2020, 2021 a 2022

| | Dyddiad Gwagio | Cyfanswm Bras Arbedion 2015/16 | Cyfanswm Bras Arbedion 2016/17 | Cyfanswm Bras Arbedion 2017/18 | Cyfanswm Bras Arbedion 2018/19 | Cyfanswm Bras Arbedion 2019/20 | Cyfanswm Bras Arbedion 2020/21 | Cyfanswm Bras Arbedion 2021/22 | Cyfanswm 7 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wynchway House, Hwlffordd | 01/02/2016 | £21,861 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | **£808,869** |
| Ffordd Aran, Dolgellau | 31/03/2016 | - | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | **£42,438** |
| Y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | 31/03/2016 | - | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | **£174,564** |
| Brecon House, Caerffili | 31/05/2017 | - | - | £106,280 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | **£616,704** |
| Tŷ'r Llyn, Abertawe | 23/06/2017 | - | - | £371,811 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | **£2,296,791** |
| Hen Ficerdy, Caergybi | 12/01/2018 | - | - | £7,110 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | **£141,094** |
| Hill House, Teras Picton, Caerfyrddin | 01/04/2018 | - | - | - | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | **£556,312** |
| Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr | 22/06/2018 | - | - | - | £92,863 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | **£452,173** |
| Adeildaau'r Goron, Penrallt, Caernarfon | 27/07/2018 | - | - | - | £242,337 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | **£1,312,335** |
| Clarence House, Casnewydd | 30/05/2019 | - | - | - | - | £79,381 | £94,999 | £94,999 | **£269,379** |
| Tŷ Southgate, Caerdydd | 19/09/2019 | - | - | - | - | £87,042 | £163,766 | £163,766 | **£414,574** |
| 33 Heol Casnewydd, Caerdydd | 31/03/2020 | - | - | - | - | - | £4,340 | £4,340 | **£8,680** |
| Plas Carew | 12/02/2021 | - | - | - | - | - | £72,318 | £561,619 | **£633,937** |
| Uned 22 Y.Dd. Llandochau, Heol Penarth, Caerdydd | 23/03/2021 | - | - | - | - | - | £2,588 | £118,089 | **£120,677** |
| Adeiladau'r Goron, Spa Road East, Llandrindod* | 31/07/2021 | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| **Cyfanswm Arbedion** | | **£21,861** | **£167,335** | **£652,536** | **£1,283,735** | **£1,591,394** | **£1,763,432** | **£2,368,234** | **£7,848,527** |

* Cafwyd swyddfeydd yn eu lle yn Neuadd y Sir, Llandrindod

# Atodiad 3: Crynodeb o Berfformiad 2015, 2020, 2021 a 2022

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad m sg | 82,295 | 81,888 | 82,275 | 80,325 | 76,836 | 76,181 | 69,850 | 68,669 |
| Cost-effeithiolrwydd £ y m sg | £220.37 | £212.82 | £223.85 | £230.02 | £233.22 | £268.04 | £263.61 | |
| Nifer y safleoedd | 25 | 22 | 22 | 20 | 18 | 17 | 15 | 15 |
| Cost yr Ystad £ | £18.136m | £17.428m | £18.417m | £18.477m | 17.920m | £20.420m | £18.413m | £18.808m |
| Rhent £ | £5.849m | £5.835m | £5.891m | £5.600m | £5.328m | £7.360m | £6.507m | £6.452m |
| Ardrethi £ | £2.721m | £2.771m | £2.785m | £2.810m | £2.863m | £2.877m | £2.573m | £2.561m |
| Arall £ | £9.564m | £8.821m | £9.740m | £10.067m | £9.729m | £10.183m | £9.333m | £9.796m |
| Lleoedd Gwag | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | |
| Cost £ y FTE | £3,139 | £3,229 | £3,380 | £3,576 | £3,428 | £3,778 | £3,337 | £3,329 |
| Cost-effeithiolrwydd – fesul m sg | £220.37 | £212.82 | £223.85 | £230.02 | £233.22 | £268.04 | £263.61 | £273.90 |
| Rhent £ y m sg | £71.08 | £71.26 | £71.61 | £69.71 | £69.34 | £96.60 | £93.15 | £93.96 |
| Ardrethi £ y m sg | £33.07 | £33.84 | £33.85 | £34.98 | £37.26 | £37.76 | £36.84 | £37.29 |
| Arall £ y m sg | £116.23 | £107.72 | £118.39 | £125.33 | £126.62 | £133.68 | £133.62 | £142.65 |
| Effeithlonrwydd Gofod – m sg/FTE | 14.2 | 15.2 | 15.1 | 15.5 | 14.7 | 14.1 | 12.6 | 12.2 |
| M sg fesul gweithfan | 11.46 | 11.95 | 12.21 | 12.63 | 12.91 | 12.85 | 13.35 | 12.54 |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.24 | 1.27 | 1.24 | 1.23 | 1.14 | 1.1 | 0.95 | 0.97 |

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 8,498 | 6,939 | 6,259 | 5,376 | 4,236 | 3,713 | 3,500 | 3,000 |
| Trydan (t $CO_2$) | 7,185 | 5,863 | 5,193 | 4,259 | 3,193 | 2,647 | 1,896 | 1,500 |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,313 | 1,076 | 1,066 | 1,117 | 1,043 | 1,066 | 1,604 | 1,400 |
| Cyfanswm Gwastraff (Tunnelli) | 500 | 498 | 553 | 350 | 372 | 284 | 50 | 72 |
| Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 25 | 22 | 18.5 | 12 | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 75 | 78 | 81.5 | 88 | 88 | 82 | 69 | 84 |
| Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm) | - | - | - | - | 11 | 17 | 29 | 14 |
| Dŵr ($M^3$/person/blwyddyn) | 8.3 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 | 5.6 | 2.1 | 2.5 |

* Ffigurau'n cynnwys yr olew a'r LPG a ddefnyddiwyd

# Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad Eiddo’r Ystad Arbenigol

| Cyfeiriad | Rheswm dros ei eithrio | Cyfanswm arwynebedd llawr mewnol m sg | Cyfanswm Cost Flynyddol 2016-2017 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2017-2018 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2018-2019 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2019-2020 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2020-2021 | Cyfanswm Cost Flynyddol 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, Westminster | Swyddfa y tu allan i Gymru | 304 | £334,994 | £479,844 | £435,749 | £358,403 | £371,782 | £445,258 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-Coed | Defnydd Arbenigol | N/A | £523,807 | £768,651 | £544,002 | £597,208 | £669,404 | £602,578 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (Traffig) | 763 | £230,799 | £236,951 | £298,460 | £174,748 | £176,786 | £197,856 |
| Canolfan Rheoli Traffig, PB Morfa, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbengiol (Traffig) | 1,128 | £165,272 | £190,144 | £179,382 | £127,542 | £133,418 | £174,659 |
| Plot 233, Pafiliwn, Maes y Sioe Fawr, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | 220 | £50,600 | £74,932 | £69,050 | £47,438 | £45,446 | £45,808 |
| Adeilad Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin | Defnydd Arbenigol | 452 | £49,592 | £34,123 | £36,957 | £36,104 | £35,091 | £35,998 |